Rhaglen Natura 2000 LIFE

# Cynllunio dyfodol disglair ar gyfer bywyd gwyllt rhyngwladol bwysig Cymru



Cefnogir gan LIFE, offeryn ariannol y Gymuned Ewropeaidd

## Natur ar ei gorau

Yng Nghymru ceir 20 o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig er budd adar bregus a 92 o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig er lles rhywogaethau prin eraill a chynefinoedd naturiol dan fygythiad. Gyda'i gilydd, gelwir y rhain yn safleoedd Natura 2000. Law yn llaw ag ardaloedd ledled Ewrop, mae'r rhain yn ffurfio rhwydwaith cadwraeth heb ei ail o safleoedd rhyngwladol bwysig i fywyd gwyllt.

Mae rhwydwaith Natura 2000 Cymru yn 700,000 hectar a mwy o faint (8.5% o dir Cymru a 35% o'i dyfroedd tiriogaethol).



## Rhaglen Natura 2000 LIFE yng Nghymru

Mae sefydliadau ledled Cymru (sy'n cynrychioli tirfeddianwyr, busnesau ffermio a physgota, defnyddwyr hamdden, cadwraethwyr, y sector cyhoeddus a rheolyddion) yn dod at ei gilydd er mwyn trafod y ffordd orau o reoli ac adfer yr ardaloedd bywyd gwyllt gwych hyn yn ystod y degawd nesaf.

Yr her yw pennu blaenoriaethau ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig mewn safleoedd Natura 2000 yng Nghymru, ar y tir ac yn y môr. Bydd y rhaglen yn ceisio dod o hyd i broblemau ac yn cynllunio pa gamau y mae angen eu cymryd er mwyn gwella cyflwr y nodweddion hyn yn sylweddol, yn ogystal â'u diogelu ar gyfer y dyfodol. Gallai'r camau gynnwys newid polisïau, gwelliannau ymarferol ar raddfa fach neu brosiectau cadwraeth arloesol mawr.

Hefyd, bydd y rhaglen yn ceisio dod o hyd i gyllid, fel y gellir gwireddu'r camau gweithredu erbyn 2020.

## Pam y mae rhwydwaith Natura 2000 mor werthfawr?



Mae'r rhwydwaith yn:

- Cynnig hafan hollbwysig a lefel uchel o warchodaeth i 69 o rywogaethau a 55 o gynefinoedd sydd dan fygythiad rhyngwladol.
- Cyfrannu'n sylweddol at economi Cymru trwy gyfrwng twristiaeth, gweithgareddau hamdden, ffermio, pysgota a choedwigaeth.
- Cynnig gwasanaethau 'cynnal bywyd' hanfodol i bob un ohonom, er enghraifft puro ein dŵr yfed a storio carbon.
- Dangos natur ar ei gorau, gan roi mwynhad i filiynau o ymwelwyr bob blwyddyn.

# Cynllunio dyfodol mwy disglair…

Er bod rhai o rywogaethau a chynefinoedd Natura 2000 yn ffynnu, mewn nifer o achosion maen nhw'n dirywio ac mewn cyflwr gwael. Felly, mae gweithredu mewn modd pendant a chydlynol yn hanfodol.

Bydd y Rhaglen, a roddir ar waith gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, yn gwneud y canlynol:

- Dod â'r rhai sy'n gysylltiedig â safleoedd Natura 2000 ynghyd i ystyried ffyrdd arloesol o ymdrin â'r hyn sy'n bygwth y bywyd gwyllt, gan gytuno ar ffordd ymlaen.
- Ystyried anghenion rhwydwaith Natura 2000 yn strategol, gan bennu blaenoriaethau ar gyfer Cymru fel y gellir targedu'r holl ymdrechion yn y ffordd orau ac yn y mannau mwyaf priodol.

- Cyfrif y gost o achub yr asedau naturiol hollbwysig hyn, a chynorthwyo i wneud yn fawr o filiynau o bunnoedd o gyllid grantiau a chyllid o ffynonellau eraill er mwyn darparu'r buddsoddiad angenrheidiol (a rhoi hwb i'r economi leol).
- Tynnu sylw at y manteision a ddaw i ran lles pobl yn sgil rhwydwaith Natura 2000; er enghraifft storio carbon, dŵr glanach, amddiffynfeydd môr naturiol, swyddi 'gwyrdd' a mentrau lleol.
- Cyflwyno tystiolaeth o werth rhwydwaith Natura 2000 gerbron y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'r rhai sy'n dyfarnu grantiau.



## Erbyn 2014 bydd y canlynol gennym:

- Trysorfa dystiolaeth gadarn yn dwyn ynghyd wybodaeth o bob cwr o Gymru ac Ewrop.
- Cynlluniau gweithredu ar gyfer pob ardal Natura 2000 yn nodi'r gweithgareddau hanfodol, gyda manylion am y costau, y cyllid a'r amserlenni gwaith ar gyfer y cyfnod 2014-2020.
- Gwelliannau sylweddol i'r gronfa ddata a ddefnyddir i storio, dadansoddi a chael gafael ar wybodaeth.
- Astudiaeth bwysig ar gyllid er mwyn pwyso a mesur gwerth y cyllid presennol a dod o hyd i ffynonellau newydd.
- Y rhaglen derfynol, yn cynnwys cynllun cyflawni.

## Sut y gall fy sefydliad gymryd rhan?

Mae cael sefydliadau sydd â diddordeb mewn safleoedd Natura 2000 i gyfrannu yn hollbwysig i lwyddiant y rhaglen. Gallwch gyfrannu gwybodaeth, syniadau a barn, yn ogystal â chyfrannu at greu'r cynlluniau gweithredu trwy wneud y canlynol:

- Cymryd rhan mewn gweithdai a gynhelir yng Nghymru yn ystod 2013 a 2014.
- Cyfarfod ag aelodau'r tîm.
- Rhoi eich enw ar y rhestr bostio ar gyfer cael cylchlythyrau a gwybodaeth ddiweddaraf.

## Manylion Cyswllt

Rheolwr y Rhaglen:  Kathryn Hewitt
Cydlynydd y Tir: Ian Hughes
Cydlynydd y Môr: Jennifer Kelly
Cydlynydd Rhywogaethau: Patrick Lindley
Cydlynydd Dŵr Croyw a Gwlyptiroedd: Theresa Kudelska
Rheolwr Data: Scott Griffiths
Gweinyddwr y Rhaglen: Hayley MacDonald-Jones

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd,
BANGOR, LL57 2DW
Ffôn: 0845 1306229
E-mail: enquiries@ccw.gov.uk
Web pages: www.ccw.gov.uk/LIFE

Ionawr 2013

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
NATURA 2000
Life